# Canllawiau statudol o dan adrannau 147 a 147ZA o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn ymwneud â'r gofyniad i awdurdodau lleol ystyried anghenion pobl sydd ag anawsterau symudedd wrth awdurdodi camfeydd a gatiau

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Cyflwyniad**

2.1 Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adrannau 147 a 147ZA o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980"), fel y'i diwygiwyd gan adran 69 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("Deddf CROW").

2.2 Mae adran 69 yn diwygio adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac yn cyflwyno adran newydd, sef 147ZA. Mae'r diwygiadau i adran 147 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried anghenion pobl sydd ag anawsterau symudedd wrth awdurdodi codi camfeydd, gatiau neu gelfi eraill ac mae'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth awdurdodi camfeydd a gatiau, ac ati. Rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw i'r canllawiau.

2.3 Mae adran 69 hefyd yn cyflwyno adran newydd, 147ZA sy'n rhoi pwerau i awdurdodau lunio cytundebau â thirfeddiannwyr, lesddeiliaid neu ddeiliaid tir i ymgymryd â gwaith ar strwythur sydd ar lwybr troed neu lwybr ceffyl er mwyn gosod strwythur newydd neu strwythur gwell yn ei le a fydd yn fwy diogel neu'n fwy cyfleus i bobl sydd ag anawsterau symudedd.

**Anghenion pobl sydd ag anawsterau symudedd**

2.4 Mae canllawiau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2002, yn nodi canllawiau i awdurdodau ar anghenion pobl sydd ag anawsterau symudedd. Dymuna Llywodraeth y Cynulliad hefyd dynnu sylw'r awdurdodau at ddau gyhoeddiad arall, sef:

- 'Ym mhob modd rhesymol: mynediad cynhwysol i'r awyr agored'.
- Rhifyn CD estynedig o Countryside for All Good Practice Guide, a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Fieldfare yn 2005.

2.5 Ym marn Llywodraeth y Cynulliad, dylai'r ddau gyhoeddiad hyn, ynghyd â chanllawiau ROWIP a'r Safonau Prydeinig (BS5709: bylchau, gatiau a chamfeydd), roi digon o wybodaeth i awdurdodau ar sut i asesu anghenion pobl sydd ag anawsterau symudedd a phenderfynu pa lwybrau ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer gwella mynediad i'r bobl hyn. Mae'r dogfennau hefydn yn nodi'n glir mai dim ond un rhan o'r gwaith o ddarparu gwell mynediad i bobl sydd ag anableddau neu anawsterau symudedd yw mynd i'r afael â rhwystrau ffisegol ar hawliau tramwy a bod angen ystyried agweddau megis cyhoeddusrwydd, parcio a chyfleusterau perthnasol eraill hefyd. Mae nifer o awdurdodau eisoes, yn ystod eu gwaith ar gynlluniau gwella hawliau tramwy, wedi cynnal ymgynghoriadau ar anghenion pobl sydd ag anableddau ac anawsterau symudedd ac wedi datblygu cynigion ar gyfer gwella mynediad i gefn gwlad.

**Materion sy'n gyffredin i adrannau 147 a 147ZA**

2.6 Mae'r ddwy adran yn cynnwys pwerau i orfodi amodau ar ddylunio a chynnal a chadw strwythurau. Cynghorir awdurdodau y gellir defnyddio'r pwerau hyn i sicrhau, er enghraifft, bod strwythur yn cydymffurfio â BS 5709.

2.7 Dylai awdurdodau gadw cofnod o'r hyn a gaiff ei awdurdodi o dan adran 147 ac unrhyw gytundebau o dan adran 147ZA. Ym marn Llywodraeth y Cynulliad, nid yw'r pŵer i wneud gorchmynion addasu mapiau diffiniol (o dan adran 53(3)(a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol gofnodi effaith unrhyw awdurdodiad neu gytundeb o'r fath ar y map a'r datganiad diffiniol. Yr unig ffordd y gellir cofnodi awdurdodiad neu gytundeb o'r fath ar y map a'r datganiad diffiniol yw drwy orchymyn o dan adran 53(3)(c)(iii). Mae isadran (4) o adran 53 yn ei gwneud yn glir y gall gorchymyn addasu mapiau diffiniol ychwanegu manylion cyfyngiadau sy'n effeithio ar hawliau tramwy i'r datganiad. Caiff awdurdodau eu hannog i gadw manylion yr awdurdodiad a roddir fel eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio gyda'r map a'r datganiad diffiniol .

**Materion sy'n benodol i adran 147**

2.8 Nid oes unrhyw ganllawiau penodol wedi cael eu cyhoeddi i awdurdodau o ran defnyddio'u pwerau o dan adran 147. Mae adran 147 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cymwys awdurdodi codi camfa, giât neu strwythur arall sy'n atal anifeiliaid rhag mynd a dod ar lwybr troed neu ar lwybr ceffyl (ond nid ar gilffordd gyfyngedig na chilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig na llwybrau beicio). Dim ond ar sylwadau perchennog, lesddeiliad neu ddeiliad y tir y gall yr awdurdod weithredu. Dim ond i lwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n croesi tir sy'n cael ei ddefnyddio neu sy'n cael ei drin i'w ddefnyddio at ddibenion amaethyddol (fel y'i diffinnir yn adran 329 o Ddeddf 1980), coedwigaeth neu fridio neu gadw ceffylau y mae'r pŵer hwn yn berthnasol. Nid yw unrhyw awdurdodiad a roddir o dan adran 147 yn caniatáu ymyrryd â hawliau mynediad preifat neu hawliau ymgymerwyr statudol mewn unrhyw ffordd.

2.9 Gall awdurdod cymwys, os yw'n penderfynu rhoi awdurdodiad, osod amodau ar gyfer cynnal a chadw a sicrhau y gellir defnyddio'r hawl tramwy heb beri anghyfleustra diangen i'r cyhoedd. Bydd awdurdodau hefyd yn ymwybodol bod pwerau ar gael hefyd o dan adran 66(3) o Ddeddf 1980 i awdurdodau priffyrdd ddarparu a chynnal a chadw rhwystrau, pyst, rheiliau neu ffensys o'r fath ar lwybr troed neu lwybr ceffyl yn ôl yr angen at ddibenion diogelu'r bobl sy'n defnyddio'r briffordd.

2.10 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynghori awdurdodau y dylent fod yn fodlon ar y tair agwedd ganlynolcyn awdurdodi rhwystr newydd o dan adran 147:

- Bod y tir yn cael ei ddefnyddio, neu'n cael ei baratoi i gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, coedwigaeth neu fridio neu gadw ceffylau;
- Er mwyn i'r defnydd hwnnw fod yn effeithlon, ei bod yn fuddiol i strwythur gael ei godi ar y llwybr neu'r ffordd sy'n croesi'r tir i rwystro anifeiliaid rhag mynd a dod;
- Mai'r rhwystr sy'n cael ei awdurdodi yw'r rhwystr lleiaf cyfyngol sy'n diwallu'r angen i gadw anifeiliaid i mewn neu eu cau allan.

**Materion sy'n benodol i adran 147ZA**

2.11 Dylai awdurdodau nodi'r canlynol:

- Pŵer i ymrwymo i gytundeb yn unig a gwmpesir. Ni all awdurdodau ymrwymo i gytundeb heb ganiatâd pob perchennog, lesddeiliad neu ddeiliad y tir y saif y strwythur perthnasol arno. Ceir pwerau, tebyg i'r rhai yn adran 147, i orfodi amodau, gan gynnwys amodau ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
- Mae'r pŵer i ymrwymo i gytundeb yn gyfyngedig i strwythurau sy'n "strwythurau perthnasol". Strwythurau cyfreithiol cyfreithiol yw'r rhain, a chyfrifoldeb awdurdodau yw bodloni eu hunain bod strwythur sy'n destun cytundeb arfaethedig yn "strwythur perthnasol". Gall yr awdurdod ymdrin ag unrhyw strwythur ar draws llwybr troed neu lwybr ceffyl nad yw'n "strwythur perthnasol" o dan adrannau 130 ac 143 o'r Ddeddf Priffyrdd fel rhwystr. Mewn rhai amgylchiadau, gallai rhai awdurdod ateb y broblem drwy awdurdodi strwythur newydd o dan adran 147.
- Gall cytundeb adran 147 gwmpasu mwy nag un strwythur.
- Dylai awdurdodau sicrhau mai'r rhwystr newydd yw'r rhwystr lleiaf cyfyngol sy'n diwallu pob angen i gadw anifeiliaid i mewn neu eu cau allan. Dylai awdurdodau nodi nad yw'r pŵer i ymrwymo i gytundebau yn ymestyn i waredu strwythurau heb roi strwythurau newydd yn eu lle: rhaid cael strwythur newydd o ryw fath. *Noder:* Yn yr achos hwn, gallai bwlch sy'n cydffurfio â BS5709 neu safon debyg gael ei ystyried yn strwythur os yw amgylchiadau unrhyw achos penodol yn awgrymu y gall wneud hynny.
- Mae'r pŵer i ymrwymo i gytundebau yn rhagweld y bydd gwaith yn dilyn, felly ni ellir defnyddio'r pŵer i ymrwymo i gytundebau a fyddai'n rhoi effaith ôl-weithredol i newid ffisegol sydd eisoes wedi'i wneud.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Mawrth 2007**

***Model drafft o gytundeb adran 147ZA***
*(nid yw hwn yn rhan o'r canllawiau statudol)*

**ER GWYBODAETH**
Cynhwysir y nodiadau hyn er mwyn rhoi eglurhad o adran 147ZA o Ddeddf Priffyrdd 1980. Nid ydynt yn rhan o'r cytundeb.

1. Diben adran 147ZA yw galluogi cytundebau i gael eu gwneud rhwng awdurdodau lleol a thirfeddiannwyr, deiliaid a lesddeiliaid ar gyfer ailosod strwythurau ar draws llwybrau troed a llwybrau ceffylau, megis camfeydd a gatiau, gyda strwythurau newydd y bydd yn haws i'r cyhoedd a'r rhai sydd ag anableddau neu anawsterau, yn arbennig symudedd, eu defnyddio.

2. Mae'r cytundeb yn cwmpasu cyfrifoldebau'r perchennog, ac ati a'r awdurdod am ddylunio a chodi'r strwythur newydd a'i gynnal a'i gadw yn dilyn hynny.

3. Mae adran 147ZA hefyd yn nodi y bydd hawl y perchennog i godi a chynnal a chadw strwythur ar draws y llwybr neu'r ffordd yn berthnasol i'r strwythur newydd, ac ni fydd yn berthnasol i'r hen strwythur mwyach, ar ddyddiad a nodir yn y cytundeb, neu os na nodir dyddiad, yna flwyddyn ar ôl dyddiad y cytundeb. Fodd bynnag, os na chedwir at unrhyw un o'r amodau yn y cytundeb, bydd yr hawl i godi a chynnal a chadw'r strwythur newydd yn dod i ben oni bai a hyd nes y cydymffurfir â'r amodau, a gall yr awdurdod alw ar i'r strwythur gael ei symud.

**4. Gallai'r cytundeb model fod yn ddefnyddiol i awdurdodau, perchnogion, lesddeiliaid a deiliaid, ond dim ond templed awgrymedig ydyw a dylid ei deilwra i fodloni amgylchiadau unigol. Dylai awdurdodau, perchnogion, lesddeiliaid a deiliaid geisio cyngor cyfreithiol cyn ymrwymo i gytundeb o dan adran 147ZA.**

| **CYNNWYS ARFAETHEDIG Y CYTUNDEB**<br>*Yr eitemau mewn italig yw'r mannau lle y dylid ychwanegu manylion, neu lle y dylid dileu un neu fwy o opsiynau fel y bo'n briodo* | **Nodiadau** |
|---|---|
| 1. Cytundeb yw hwn rhwng yr awdurdod a'r *[perchennog] [lesddeiliad] [deiliad]* o dan adran 147ZA o Ddeddf Priffyrdd 1980 at ddibenion *[crynodeb o ddibenion y cytundeb, e.e. disodli camfa ar lwybr troed* | Cynhwysir er mwyn rhoi crynodeb o'r cytundeb, i nodi'r partïon cysylltiedig ac i nodi'n glir mai cytundeb o dan adran 147ZA ydyw. |

| | |
|---|---|
| 2. Yn y Cytundeb hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys ac mae gan unrhyw dermau na chânt eu diffinio ystyr a roddir iddynt yn Neddf Priffyrdd 1980: | Mae'n nodi'n glir, yn achos termau na chânt eu diffinio, mai'r diffiniad a roddir iddynt yn Neddf 1980 sy'n gymwys. |
| Ystyr "awdurdod" yw'r awdurdod priffyrdd lleol neu awdurdod cymwys arall neu unrhyw awdurdod arall sy'n gweithredu o dan gytundeb â'r awdurdod priffyrdd lleol neu awdurdod cymwys arall sy'n golygu y gall yr awdurdod hwnnw ymrwymo i gytundeb o dan adran 147ZA; | Mae'n caniatáu ar gyfer awdurdod asiant sydd â phŵer o dan ei gytundeb asiantaeth i ymrwymo i gytundebau o dan adran 147ZA. |
| Ystyr "strwythur presennol" yw'r *[disgrifiad o'r strwythur]* yn *[disgrifiad o'r lleoliad, gan gynnwys cyfeirnod grid]* a dangosir fel pwynt A ar y cynllun sy'n atodedig i'r Cytundeb hwn; | |
| *Ystyr "lesddeiliad" yw [manylion y lesddeiliad];* | I'w gynnwys pan fo lesddeiliad. |
| Ystyr "strwythur newydd" yw'r *[disgrifiad o'r strwythur]* yn *[disgrifiad o'r lleoliad, gan gynnwys cyfeirnod grid]* a ddangosir fel pwynt A ar y cynllun sy'n atodedig i'r Cytundeb hwn; | |
| *Ystyr "deiliad" yw [manylion y deiliad];* | I'w gynnwys pan fo deiliad ar wahân i'r perchennog. |
| Ystyr "perchennog" yw *[manylion y perchennog];* | |
| Ystyr "gwaith cymwys" yw'r holl waith fel y'i disgrifir yn yr Atodlen i'r Cytundeb sy'n angenrheidiol i gael gwared ar y strwythur presennol a chodi strwythur newydd yn ei le; | |
| Ystyr "hawl tramwy" yw'r *[llwybr troed] [llwybr ceffyl]* lle mae'r strwythur presennol wedi'i leoli *ac sydd wedi'i gofnodi yn y map a'r datganiad diffiniol ar gyfer [enw'r map diffiniol] fel [enw'r plwyf a rhif yr hawl tramwy].* | Dylid cynnwys y cyfeirnod map diffiniol ar gyfer yr hawl tramwy lle mae wedi ei gofnodi felly. |

| | |
|---|---|
| 3 Mae'r hawl tramwy yn destun cyfyngiad lle mae gan y perchennog/lesddeiliad/deiliad hawl i godi a chynnal a chadw'r strwythur presennol *[drwy awdurdodiad a roddwyd ar (dyddiad) gan (enw'r awdurdod a roddodd yr awdurdodiad)].* | Rhowch fanylion awdurdodiad adran 147 os oes un. |
| 4 Mae'r perchennog/lesddeiliad/deiliad yn cytuno i ymgymryd â gwaith cymwys o fewn tri mis i ddyddiad y Cytundeb hwn ac i hysbysu’r awdurdod pan fo'r gwaith wedi'i gwblhau. | Dylid ailysgrifennu'r cymal hwn a'r un canlynol fel y bo'n briodol os mai'r awdurdod fydd yn ymgymryd â'r gwaith a'r perchennog/lesddeiliad/deiliad fydd yn talu unrhyw gostau. |
| 5 Mae'r awdurdod yn cytuno i ad-dalu'r perchennog/lesddeiliad/deiliad am unrhyw dreuliau rhesymol yr eir iddynt wrth dalu costau'r gwaith cymwys. | Ychwanegwch destun ychwanegol os ydych yn dymuno i ddarparu ar gyfer arolygiad gan yr awdurdod cyn gwneud unrhyw daliad. |
| *6 At ddibenion isadran (5) o adran 147ZA dyddiad gweithredol y Cytundeb hwn yw [nodwch y dyddiad].* | Dim ond os caiff y dyddiad gweithredol ei nodi y dylid defnyddio'r cymal hwn: yn niffyg hynny, y dyddiad fydd blwyddyn o ddyddiad y cytundeb. |
| *7 Mae'r [perchennog], y [lesddeiliad] a'r [deiliad] wedi cytuno I'r Cytundeb hwn gael ei wneud.* | Dylid ei gynnwys pan fo deiliad neu lesddeiliad ar wahân i'r perchennog, a dilëwch fel y bo'n briodol. |
| *8 Mae'r amodau canlynol yn gymwys i'r Cytundeb hwn: [nodwch yr amodau]* | I'w gynnwys os caiff yr amodau eu nodi (isadrannau (3) a (4)). |
| *9 Dim ond os cydymffurfir â'r amodau a nodir yng nghymal 8 y tybir bod y strwythur newydd wedi'i godi o dan y Cytundeb hwn.*<br><br>Llofnodwyd: *[gan y partïon i'r cytundeb]*<br><br>Dyddiad: | I'w cynnwys os caiff amodau eu nodi. |

| | |
|---|---|
| **CYNLLUN**<br>Yn dangos y llwybr neu'r ffordd ac, fel pwynt A, lleoliad y strwythur presennol. | |
| **ATODLEN**<br>Disgrifiad o'r gwaith cymwys. | |

## Atodiad 1

### Canllawiau Presennol

### 1. BS 5709: y Safon Bydeinig ar gyfer bylchau, gatiau a chamfeydd

Cyhoeddwyd y Safon Brydeinig gyntaf ar gyfer Camfeydd, Gatiau Ceffylau a Gatiau Mochyn yn 1979, a chyhoeddwyd diwygiad yn 1982. Roedd yn darparu canllawiau ar gynllun a maint. Mae ail fersiwn a gyhoeddwyd yn 2001 (a ddiwygiwyd yn 2006) yn llai rhagnodol ac yn ceisio gwneud mwy drwy roi canllawiau ar fabwysiadu ymagwedd lleiaf cyfyngol at fynediad (LRA), fel y dengys ei chwmpas

> Mae'r Safon Brydeinig hon yn nodi gofynion perfformiad mesuradwy yn y maes ar gyfer bylchau, gatiau a chamfeydd ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffylau Mae'n cynnig hierarchaeth o ofynion perfformiad i alluogi dewisiadau i gael eu gwneud o ran y math o strwythur sydd fwyaf priodol mewn amgylchiadau arbennig.

### 2. Y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ("y Ddeddf")

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswyddau cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau. "Darparwr gwasanaeth" yw person neu sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'n annhebygol y byddai tirfeddiannwr y mae hawl tramwy yn rhedeg ar draws ei dir (neu lesddeiliad neu ddeiliad) yn cael ei ystyried yn "ddarparwr gwasanaeth" (er y gallai rhywun sy'n dewis darparu llwybr caniatáol fod yn "ddarparwr gwasanaeth"). Fodd bynnag, ystyrir y byddai awdurdod cymwys sy'n penderfynu rhoi awdurdodiad neu ymrwymo i gytundeb o dan adran 147 neu 147ZA, neu'n sy'n ystyried cymryd camau gorfodi o dan adran 146 mewn perthynas â chamfa ddiffygiol, yn "ddarparwr gwasanaeth”. Byddai hyn yn wir hefyd am awdurdod sy'n ystyried gwneud gorchymyn creu neu wyro llwybr cyhoeddus lle y gallai cyfyngiad gael ei roi ar hyd y llwybr newydd a gaiff ei greu.

Mae'r Ddeddf wedi'i diwygio gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 ("Deddf 2005"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl ac mae'n gymwys i holl swyddogaethau cyrff cyhoeddus, nid yn unig y cyrff hynny sy'n "ddarparwyr gwasanaeth”.

Mae'n anghyfreithlon i ddarparwr gwasanaeth wahaniaethu yn erbyn person anabl drwy:

- wrthod darparu gwasanaeth;
- darparu gwasanaeth o safon is neu mewn ffordd waeth;
- darparu gwasanaeth lle mae'r amodau'n waeth,

ac eithrio o dan amgylchiadau penodol a nodir mewn deddfwriaeth. Mae Cod Ymarfer y Comisiwn Hawliau Anabledd yn cynnig canllawiau ar yr amgylchiadau pan y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu.

Y achos adran 147, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer y ceisydd, tra bod yr effaith andwyol bosibl, o ran y Ddeddf, ar y trydydd parti sy'n defnyddio'r hawl tramwy cyhoeddus. Awgrymir y gallai'r mater gael ei ddatrys drwy ystyried dyletswyddau cyffredinol yr awdurdod priffyrdd o dan adran 130 o'r un Ddeddf i atal, cyhyd â phosibl, rhwystrau ar briffyrdd rhag bod yn swyddogaeth lle mae'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd, a bod rhaid cyflawni ei swyddogaethau o dan adran 147 o fewn cyd-destun adran 130.

Mae'r dyletswyddau eraill o dan y Ddeddf yn cynnwys cymryd camau rhesymol i:

- newid polisïau, arferion a gweithdrefnau sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl ddefnyddio gwasanaeth;
- darparu cymhorthion a gwasanaethau atodol pe baent hyn yn ei gwneud yn haws i bobl anabl ddefnyddio gwasanaeth;
- gwaredu rhwystrau ffisegol sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl anabl ddefnyddio gwasanaeth neu ddarparu'r gwasanaeth drwy ddulliau amgen rhesymol.

Fodd bynnag, nid yw awdurdodau priffyrdd yn "darparu" llwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n bodoli eisoes, ac felly mae'n ymddangos yn amheus y gallai'r Ddeddf gael ei hystyried i orfodi awdurdodau i gael gwared ar rwystrau ffisegol ar hawliau tramwy, er nd yw'r cwestiwn hwn wedi'i brofi eto yn y llysoedd a gallai'r diwygiadau a wnaed gan Ddeddf 2005 effeithio arno. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r Ddeddf yn gorfodi hyn, un ystyriaeth arall fyddai p'un a oes gan unrhyw awdurdod y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gael gwared ar rwystr cyfreithiol megis camfa neu giât (ac eithrio pan fo'r awdurdod wedi darparu'r rhwystr, er enghraifft o dan ei bwerau yn adran 66 o'r Ddeddf Priffyrdd i ddarparu rhwystrau at ddibenion diogelwch). Nid yw Adran 147 yn cynnwys unrhyw bŵer penodol i ddiddymu awdurdodiad, hyd yn oed os nad yw'r rhesymau amaethyddol neu'r rhesymau eraill dros ganiatáu'r awdurdodiad bellach yn gymwys. Nid yw chwaith yn cynnwys pŵer penodol i osod amodau sy'n arwain i bob pwrpas at ddiddymiad, e.e. os na chaiff y tir ei ddefnyddio bellach i gadw anifeiliaid. Pŵer i ymrwymo i gytundebau yw adran 147ZA: nid oes unrhyw bŵer i orfodi tirfeddiannwr, lesddeiliad na ddeiliad anfodlon i ymrwymo i'r fath gytundeb.

### 3. Cynlluniau gwella hawliau tramwy

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol (o dan adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) i baratoi cynlluniau gwella hawliau tramwy (ROWIP) o fewn pum mlynedd i ddechrau'r darpariaethau perthnasol ym mis Tachwedd 2002. Rhaid i'r cynlluniau gwella gynnwys asesiad yr awdurdod o rai materion penodol, gan gynnwys hygyrchedd hawliau tramwy lleol ar gyfer pobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd ag anawsterau symudedd, ynghyd â datganiad o'r camau y bwriada'r awdurdod eu cymryd i reoli hawliau tramwy lleol a sicrhau gwell rhwydwaith o hawliau tramwy lleol. Mae disgwyliad hefyd yn y canllawiau ar gyfer y cynlluniau gwella a roddwyd i awdurdodau priffyrdd lleol y bydd awdurdodau yn defnyddio cynlluniau gwella i gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu eu hawliau tramwy lleol presennol, eu rheoli'n well a'u hyrwyddo.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau ym mis Rhagfyr 2002 ar y gwaith o baratoi eu cynlluniau ac mae nifer o awdurdodau yn y broses o gyhoeddi eu hasesiadau neu gynlluniau gwella drafft.

**Nodir dyfyniad o'r canllawiau isod:**

**Asesu anghenion pobl sydd ag anawsterau symudedd**
Mae'r Ddeddf yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol asesu anghenion pobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd ag anawsterau symudedd. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol hefyd. Gall pobl sydd ag anawsterau symudedd gynnwys, er enghraifft, pobl hŷn neu bobl anabl, a phobl sydd â phlant ifanc a chadeiriau gwthio. Mae hygyrchedd y rhwydwaith hefyd yn effeithio ar deuluoedd a ffrindiau sy'n mynd yn gwmni i bobl sydd ag anableddau symudedd.

Dylai awdurdodau priffyrdd lleol asesu'r angen am unrhyw waith i ffyrdd presennol a'r angen am ffyrdd newydd i alluogi pobl sydd ag anawsterau symudedd i fwynhau cyfran uwch o'r rhwydwaith nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Wrth gynnal yr asesiadau hyn, dylai awdurdodau priffyrdd lleol weithio ar yr egwyddor y dylid ystyried anghenion pobl ag anawsterau symudedd bob amser wrth reoli, cynnal a chadw, hyrwyddo a gwella hawliau tramwy lleol. Dylai'r awdurdodau gofio hefyd bod anghenion yn gwahaniaethu rhwng unigolion o wahanol alluoedd.

**4. Cylchlythyr 5/93 y Swyddfa Gymreig ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Nid yw [Cynulliad Cenedlaethol Cymru] o'r farn ei bod yn ymarferol argymell safonau penodol ar gyfer cynnal a chadw neu atgyweirio'r mathau gwahanol o hawliau tramwy cyhoeddus. Y brif ystyriaeth wrth ystyried graddau'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer llwybrau neu ffyrdd unigol yw y dylent wasanaethu'r diben y cânt eu defnyddio ar ei gyfer yn bennaf, yn hytrach na chydymffurfiaeth â safon adeiladu neu gynnal a chadw ormesol. Ar y cyfan, dylent fod yn gallu ymdopi â'r defnydd arferol a wneir ohonynt drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, dylai unrhyw waith a wneir gyd-fynd â golwg a chymeriad cyffredinol yr ardal o'u hamgylch. Dylai awdurdodau hefyd geisio defnyddio unrhyw gymorth a allai fod ar gael gan dirfeddianwyr a grwpiau gwirfoddol wrth wneud eu gwaith."

**5. Nodyn Cyfarwyddyd yr Uned Anabledd (Yr Adran Nawdd Cymdeithasol): Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995: Mynediad i Gefn Gwlad [Chwefror 1997]**

**MYNEDIAD I GEFN GWLAD**
*Hawliau tramwy*

Mae'n annhebygol bod perchnogion y tir y mae gan y cyhoedd hawliau tramwy drosto yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Er bod dyletswydd gyffredinol arnynt

eisoes i beidio â rhwystro'r hawl tramwy[1] neu wrthod i rywun, gan gynnwys person anabl, gael mynediad i'r tir, mae'n amheus a fydd y Ddeddf yn effeithio arnynt.

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd, ar y llaw arall i gadw mynediad dros dir preifat y mae gan y cyhoedd hawliau tramwy iddo yn rhydd o rwystrau, i gynnal a chadw'r arwynebedd a sicrhau bod arwyddbyst priodol ar y llwybrau hyn. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae awdurdodau priffyrdd yn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd ac felly rhaid iddynt sicrhau nad ydynt yn trin pobl anabl yn llai ffafriol nag eraill.

Bydd angen i awdurdodau priffyrdd ystyried hefyd p'un a fydd dyletswyddau diweddarach y Ddeddf yn effeithio arnynt. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid iddynt gymryd camau i sicrhau ei bod yn bosibl i bobl anabl gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhelir ganddynt (er enghraifft, drwy newid polisi o ddarparu dogfennau'r ymgynghoriad mewn print bach yn unig, sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl ei ddefnyddio. Efallai y byddant am sicrhau hefyd nad yw tirfeddianwyr wedi codi camfa o fath arbennig sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl ei defnyddio.

## 6. Dyfyniad o Ganllaw Arfer Da Hawliau Tramwy IPROW

### Darpariaeth statudol ar gyfer gatiau a chamfeydd

Caiff y darpariaethau statudol ar gyfer gatiau a chamfeydd eu cynnwys yn adrannau 145, 146 a 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae statud yn cwmpasu'r cyfrifoldeb am gynnal a chadw gatiau a chamfeydd, yr amgylchiadau lle gellir awdurdodi strwythurau newydd a'r amgylchiadau lle y gall yr awdurdod priffyrdd ei gwneud yn ofynnol i ledu gatiau.

### Cynnal a chadw camfeydd a gatiau presennol

Cyfrifoldeb y perchennog yw cadw camfeydd a gatiau ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau ar draws ei dir/ei thir mewn cyflwr diogel i'w defnyddio gan y cyhoedd. Mae'r darpariaethau statudol perthnasol yn adran 146 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Caiff perchennog y tir ei ddiffinio fel y person sydd, naill ai yn ei rinwedd ei hun, neu fel asiant neu fel ymddiriedolwr, â hawl i gael yr hyn a elwir yn "grogrent" y tir. Mae "crogrent" yn derm cyfreithiol sydd yn golygu dim llai na dwy ran o dair o'r swm tybiannol o arian y gallai tir gael ei rentu amdano pe bai'n cael ei rentu'n flynyddol. Gall y term "perchennog" gynnwys corff, megis cwmni cyfyngedig neu bartneriaeth. Pan fo'r tir yn cael ei ddal gan denant, gall fod angen i'r tenant atgyweirio gatiau a chamfeydd fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth. Fodd bynnag, o dan adran 146, cyfrifoldeb y perchennog yw atgyweirio yn y pen draw.

---

[1] Er bod darparieth benodol yn adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ar gyfer codi camfeydd gan y tirfeddiannwr (yn amodol ar ganiatâd yr awdurdod priffyrdd) [1]

Gan fod camfeydd a gatiau ar hawliau tramwy i'w cael yn aml ar y ffin rhwng tirddaliadau gwahanol, nid yw bob amser yn hawdd darganfod pwy yw'r perchennog. Mewn achosion o'r fath, y tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am atgyweirio'r ffens neu'r gwrych terfyn sy'n gyfrifol am y giât neu'r gamfa oddi mewn iddynt. Mewn rhai amgylchiadau, yr awdurdod priffyrdd neu'r cyngor dosbarth sy'n gyfrifol am y gamfa neu'r giât (mae hyn yn gyffredin mewn achosion lle mae'r strwythur ar lwybr a gaiff ei hyrwyddo), ond dylid sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig rhwng yr awdurdod a'r tirfeddiannwr sy'n cofnodi'r ffaith hon. Pan fo giât neu gamfa wedi'i hawdurdodi o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (gweler isod), gellir gosod amodau o ran ei chynnal a'i chadw sy'n disodli darpariaethau adran 146 (gweler isod).

Os bydd perchennog y tir yn mynd i gostau wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd i atgyweirio camfa neu giât, yna gall adennill o leiaf 25% o'r gwariant gan yr awdurdod priffyrdd. Mae mwy a mwy o awdurdodau priffyrdd yn mabwysiadu'r arfer o gyflenwi gatiau a chamfeydd i dirfeddiannwyr yn hytrach na gwneud taliadau ariannol. Mae hyn wedi digwydd oherwydd y costau uchel i'r awdurdod o brosesu'r hyn sydd, fel arfer, yn daliadau bach iawn.

Y fantais ychwanegol i hyn yw y gall yr awdurdod gyflenwi gatiau a chamfeydd o safon dderbyniol, gan osgoi anghydfod o ran ansawdd y strwythurau a gaiff eu darparu gan dirfeddianwyr. Fodd bynnag, mae awdurdodau ar y cyfan yn sicrhau bod y gatiau a'r camfeydd a gyflenwyd ganddynt wedi eu gosod yn gywir. Mae'n synhwyrol hefyd cadarnhau'n ysgrifenedig mai yn ôl disgresiwn y caiff gatiau a chamfeydd eu cyflenwi ac nid yw'n golygu y bydd yr awdurdod yn gyfrifol am atgyweirio'r strwythur.

Yr awdurdod sy'n gosod safon y gwaith atgyweirio sydd ei angen. Rhaid i'r giât neu'r gamfa gael ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr diogel ac ni ddylai ymyrryd yn afresymol â hawliau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr. Mae gatiau a chamfeydd yn amrywio o ran eu gwneuthuriad a gall fod yn anodd gosod un safon gyffredinol. Wrth fynegi barn ar ddiogelwch y strwythur a pha mor rhwyd ydyw i'w ddefnyddi, bydd angen ystyried y defnydd o'r llwybr, ei leoliad a chyflwr y strwythur. Fodd bynnag, gellir nodi rhai pwyntiau cyffredinol:

- dylai gatiau ar lwybrau ceffylau fod yn hawdd eu hagor gan farchogion a cherddwyr;
- dylai fod yn bosibl gweithredu'r holl ddulliau agor a chau yn hawdd (gydag un llaw yn achos marchog);
- dylai fod yn bosibl dringo camfa, a disgyn oddi arni heb i ddillad gael eu dal arni a heb lithro; ni ddylai ffensys trydan na weiren bigog agored fynd dros gatiau na chamfeydd nag o amgylch polion gatiau.

Nid oes gorfodaeth ar y tirfeddiannwr i wella camfa, na rhoi giât neu strwythur arall yn ei lle. Fodd bynnag, os yw'r awdurdod priffyrdd o'r farn nad yw perchennog wedi cadw giât neu gamfa mewn cyflwr diogel ac i safon ddigonol o

ran gwaith atgyweirio, gall roi hysbysiad o 14 diwrnod i'r perchennog a'r deiliad o'i fwriad i gynnal y gwaith atgyweirio ei hun. Gall awdurdod priffyrdd sy'n cyhoeddi hysbysiad yn y fath fodd adennill ei gostau gan y perchennog. Cyn cyhoeddi hysbysiad, mae'n bwysig nodi'r perchennog yn gywir; pan nad y perchennog yw'r deiliad, rhai cyhoeddi hysbysiad i'r deiliad hefyd.

**Awdurdodi strwythurau newydd**
Cwmpesir awdurdodiadau statudol mewn perthynas â chamfeydd a gatiau o dan ddarpariaethau adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae'r amgylchiadau lle y gall awdurdod priffyrdd awdurdodi gatiau a chamfeydd newydd yn gyfyngedig ac mae'r adran yn gymwys i dir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth neu sy'n cael ei drin ar gyfer defnydd amaethyddol. Yn yr achos hwn mae'r term "amaethyddiaeth" yn cynnwys coedwigaeth. Nid yw darpariaeth adran 147 yn berthnasol i unrhyw ddosbarth arall o dir, er enghraifft, tir preswyl neu barcdir. Ni chaiff y defnydd o dir ar gyfer cadw ceffylau na chânt eu defnyddio at ddibenion amaethyddol ei ystyried fel defnydd "amaethyddol", er nad yw hyn wedi cael ei brofi yn y llysoeddmewn llysoedd barn.] Yn ogystal â bod yn berthnasol i dir amaethyddol yn unig neu dir sy'n cael ei drin ar gyfer defnydd amaethyddol, dim ond pan fydd yn fuddiol o ran y defnydd effeithlon o dir amaethyddol y caiff camfeydd a gatiau eu hawdurdodi i reoli anifeiliaid rhag mynd a dod. Gwnaiff yr awdurdod priffyrdd benderfyniad yn ôl disgresiwn ac nid oes hawl apelio ac eithrio drwy adolygiad barnwrol o'r penderfyniad yn yr Uchel Lys. Nid oes pŵer i awdurdodi codi giât ar gilffordd, hyd yn oed os yw'n croesi tir amaethyddol. [*Noder:* Mae'r adran hon yn aros i gael ei diweddaru i adlewyrchu cynnwys y geiriau "...coedwigaeth ac i fridio a chadw ceffylau" yn adran 147 fel y'u cynhwyswyd yn Neddf Priffyrdd 1980 gan Orchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006.]

Wrth awdurdodi camfa neu giât, gall yr awdurdod priffyrdd osod amodau o ran cynnal a chadw'r strwythur yn y dyfodol a gall y rhain ddiystyru darpariaethau statudol adran 146. Gall awdurdod osod amod mai'r tirfeddiannwr yn unig fydd yn cynnal a chadw strwythurau newydd a gaiff eu hawdurdodi, gan ddileu unrhyw rwymedigaethau ar yr awdurdod i gyfrannu at y costau. Gall yr awdurdod hefyd osod amodau o ran y math o strwythur a'i gynllun. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i sicrhau bod strwythurau newydd yn bodloni safonau cynllunio modern. Os na chydymffurfir â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd, yna gall yr awdurdod drin y strwythur fel rhwystr a byddant yn ymdrin ag ef yn unol â hynny. Nid oes hawl apelio yn erbyn amodau a osodir ac eithrio drwy adolygiad barnwrol o'r penderfyniad yn yr Uchel Lys. Nid yw'n bosibl gosod amodau ar strwythur a awdurdodwyd o edrych yn ôl.

Mae'n bwysig cadw cofnod o bob awdurdodiad ac unrhyw amodau. Yn ddelfrydol, dylai awdurdodiadau hefyd gael eu cofnodi yn y datganiad diffiniol.

**Gatiau**
Mae darpariaethau penodol o dan adran 145 o Ddeddf Priffyrdd 1980 sy'n galluogi awdurdod priffyrdd i'w gwneud yn ofynnol i ledu gatiau ar draws lonydd cerbydau a llwybrau ceffylau. Mae'r rhain yn ymwneud ag unrhyw strwythur awdurdodedig, gan gynnwys y rhai ar lwybrau ceffylau sy'n destun hawl penodol o dan adran 147, a'r rhai ar gilffyrdd neu ar lwybrau ceffylau a gofnodwyd fel cyfyngiadau yn y datganiad diffiniol. Gall yr awdurdod priffyrdd gyflwyno hysbysiad i berchennog yn mynnu bod giât ar lwybr ceffylau yn cael ei lledu i 5 troedfedd a bod giât ar lôn gerbydau yn cael ei lledu i 10 troedfedd. Rhaid mesur y lled rhwng pyst y giât.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Mawrth 2007.**